

Cofnodion Cyfarfod 6ed Gorffennaf 2021

Presennol :- Y Cadeirydd **Emma Chappell** a'r Cynghorwyr, Gareth Griffiths, Elfed Wyn Williams, Phyllis Ellis, Jane Pierce, R. Hefin Williams. Rhian Evans-Hill, Richard Llwyd Jones, a Sasha Williams.

Croesawyd Y Cynghorydd Elwyn Jones ac Angharad Owen

Ymddiheuriadau.

Idris Thomas, Lowri Hughes, Ceri Angharad Jones a Dawn Parry

Croeso a Gweddi

Rhodddwyd gair o groeso i bawb gan Y Cadeirydd

Datgan buddiant

Dim

Cynllun Natur Ardal Llanddeiniolen

Rhodddwyd croeso arbennig i Angharad Owen a ymunodd i drafod y cynllun yma yn yr ardal.

Dywedodd bod y grŵp wedi sefydlu ac wedi cychwyn ar y gwaith Rhiwlas. Maent wedi bod yn cydweithio i ddechrau gyda'r ysgol ac wedi plannu coed a blodau aballu yn y parc ac ar faes ac wedi cydweithio o dan ganiatâd Cyngor Gwynedd ac Adra.

Mae'r grŵp yn dymuno creu llecyn ymhob pentrefi le caiff pobl ddod at ei gilydd i arddio. Y syniad ydi fod grwpiau cymunedol yn edrych ar ôl y llecynnau, bydd hyn yn creu rhydwraith drwy'r gymuned a gyda phentrefi eraill.

Maent yn gobeithio ceisio am grant sylweddol trwy'r Heritage Lottery Fund.

Mae sawl rheswm dros wneud hyn, gan ei fod yn dda i iechyd a'i wir angen yn dilyn y cyfnod clo sydd wedi bod. Yn dilyn cychwyn, y syniad ydi fod grŵp o bob pentref yn etifeddu hyn i gyd ac yn parhau i blannu. Bydd hynny yn arwain ymlaen at sawl peth ymhellach.

Rhyw syniad ydi hwn ar hyn o bryd, ac mae Angharad yn croesawu rhywun sydd gyda diddordeb i gysylltu â hi.

Rhodddwyd ychydig o sylwadau. Mae syniad pawb am ddarn o dir yn gallu bod i bwrpas Tai, Tir fel hamdden a thir i allu datblygu sgiliau trwy arddio. Sgiliau cynhenid cefn gwlad. Mae ysgolion bellach yn gweithio ar hyn, ac efallai bod posib creu cynllun fel rhoi gwobr a allai ddenu pobl ifanc i weithio yn ddi-dâl.

Nodwyd fod pentref Penisa'r-waun wedi cychwyn yn barod ar brosiect yma drwy gydweithio gyda'r ysgol a'r gymuned ehangach. Maent yn barod wedi rhoi ceisiadau am grantiau ac wedi cael addewidion.

Mae Ysgol Gwaun Gynfi yn Neiniolen yn ceisio am grant hefyd i'r plant allu gweithio ar hyn yn yr ysgol.

Diolchwyd i Angharad, am enyn diddordeb ynom i gyd. Bydd mewn cysylltiad eto.

.

Cofnodion Cyfarfod 1af Fehefin 2021

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Phyllis Ellis (1)

Gareth Griffiths (2)

Materion o'r Cofnodion.

Adre - Dal i ddisgwyl ymateb ynglŷn â phwy sydd yn gyfrifol am dorri'r gwair o amgylch y tir o gwmpas eu heiddo, dywedodd Elwyn Jones, nad yw Cyngor Gwynedd yn eu contract dim mwy, ond bod cwmni o Wrecsam oedd wedi cael y cytundeb.

Llwybr Wern i Bodandreg - Derbyniwyd ymateb gan swyddog o Gyngor Gwynedd yn cadarnhau nad oes dim un llwybr yn ardal Llanddeiniolen wedi ei ddargyfeirio. Nodwyd eto fod yr arwyddion wedi cael eu rhoi yn ôl i fyny, a hefyd wedi cael eu tynnu i lawr o fewn dyddiau. Gofynnwyd i'r Clerc gael gair gyda'r adran.

Giât Allt Ddu - Derbyniwyd cadarnhad fod y giât bellach wedi ei thrwsio.

Bws i Gaernarfon - Derbyniwyd esboniad am y gwasanaeth gan y Cyngor Sir.

Parcio Allt Ddu a Bull - Nid oes dim gall Cyngor Gwynedd wneud ynglŷn â pharcio yn Allt Ddu, ond wedi gyrru i Adran Gwarchod y Cyhoedd ynglŷn â llygru a budreddi yno.

Llinellau Gwyn ar Lon Crawia i Fethel - wedi derbyn y gwyn ac yn edrych ar y sefyllfa dros yr haf.

Derbyniwyd ymateb hefyd gan Unllais Cymru ynglŷn â materion a godwyd.

Gohebiaeth a materion eraill.

Mainc Cae Chwarae Clwt y Bont - Cafwyd e-bost yn nodi bod y fainc wedi cael ei fandaleiddio unwaith eto, ac i'r pwynt y tro yma le na allwn gael ei thrwsio. Y clerch i chwilio am amcan bris am fainc newydd.

Arwydd pentref Penisa'r-waun - Byth heb gael arwydd pentref Penisa'r-waun ochor o ochor Clwt y Bont. Y clerch i ysgrifennu eto.

Llythyr Gan Ysgol Gwaun Gynfi - Derbyniwyd llythyr cais gan yr ysgol, yn gofyn am gefnogaeth gyda chynllun grant roeddynt yn ymgeisio am i ddatblygu gardd o gwmpas yr adeilad er lles y plant a'r gymuned. Er mwyn derbyn grant, mae rhaid iddynt ddangos eu bod yn gallu codi arian eu hunain. Yn dilyn cael sgwrs gydag Angharad yn gynharach, mae yn ymddangos fod sawl ysgol yn gwneud cynlluniau eithaf tebyg. Felly, ni allwn roi i un a dim i lleill. Fodd bynnag, unwaith y flwyddyn mae'r Cyngor yn trafod ceisiadau, a hynny ym mis Hydref. Awgrymir i'r ysgolion sydd yn y plwyf, os sydd ganddynt gynllun o'r fath, eu bod yn paratoi cyllideb a manylder o beth, faint ac amcangyfrif o'r gost a'r rheolaeth i'r prosiect a rhoi cais i mewn i'r clerch erbyn diwedd mis Medi. Mae'r Cyngor yn gefnogol i hyn mewn egwyddor, ac efallai fod yn syniad nodi yn benodol ar beth yn union mae'r arian yn mynd i gael ei wario..

Cynllunio.

Y21/0621 1 Rhes Faenol, Stryd Fawr Deiniolen - Ymholiad am gyngor cyn cyflwyno cais i leoli uned arlwygo symudol o fewn cwrtil preswyl - Penderfynwyd nad oedd modd ymateb

gan nad oes digon o wybodaeth ynglŷn â'r bwriad. Ond pe bai cais swyddogol yn cael ei gyflwyno, mi fydd angen mwy o wybodaeth ar y cais.

C21/0614/18/DT 43 Caeau Gleision. Rhiwlas - Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniadau yn y cefn a'r ochrau. Dim Gwrthwynebiad

C21/0559/18/LL Tir gyferbyn a Tŷ Ni, Gallt y Foel - Cais ar gyfer codi tŷ fforddiadwy a chreu mynediad cerbydol newydd. Penderfynwyd gwrthwynebu ar sail nad yw'r cais yn gweddu fel tŷ fforddiadwy.

C21/0538/18/DT Llain y Werin, Penisar'waun - Cais ar gyfer codi estyniad deulawr i gefn yr eiddo. Dim Gwrthwynebiad.

C20/0813/18/LL - Fferm Penrhyn, Llanrug - Lleoli 3 Pod gweryslla safon uchel ynghyd a gwelliannau i'r fynedfa. Pryder am lifogydd a phryder am y fynedfa fel mae hi. Hefyd, ddim yn siŵr os ydi trafodaethau am y llwybr diogel i'r Ysgol o Fethel i Lanrug yn bwriadu defnyddio'r hen drac trê.

C21/0349/18/LI Gwynfryn, Bethel - Dymchwel y sied a'r modurdy presennol a chodi anecs yn yr ardd gefn ar gyfer defnydd preswyl yr eiddo a adnabyddir fel Gwynfryn

Cyflwyno Ffurflen Flynyddol

Yn dilyn derbyn archwiliad mewnol gan yr adran archwilio yn y Cyngor Sir, cyflwynwyd y Ffurflen Flynyddol, ynghyd a'r adroddiad mewnol. Mae rhaid dangos ac esbonio'r gwahaniaethau + neu - mewn adroddiad manwl cyn ei yrru gyda'r Ffurflen i'r Awdit Allanol. Cyflwynodd y clerc adroddiad llawn o'r gwahaniaethau rhwng eleni a llynedd, gan nodi yn union beth a faint oedd y gwahaniaethau ac egluro'r rhesymau.

Cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau neu egluro, ond nid oedd angen, roedd pawb yn hollol hapus fod yr esboniadau a'r adroddiadau yn hollol glir. Cymeradwywyd y Ffurflen Flynyddol, ac arwyddodd y Cadeirydd hi yn barod i yrru ymlaen gyda nifer o ddogfennau i Awdit Cymru. Diolchwyd i'r clerc am yr holl waith oedd ynghlwm a'r awdit

Meysydd Chwarae.

Rydym dal yn disgwyl atebion i gwestiynau a gyflwynwyd i swyddogion y Cyngor yn ystod cyfarfod o'r is bwyllgor. Felly, penderfynwyd gohirio'r drafodaeth yma tan fis Medi.

Llwybrau

Dyweddodd y Clerc ei bod wedi derbyn rhestr o lwybrau ym Methel, oes unrhyw bentref arall wedi nodi llwybrau angen sylw?

Pensarn - Llwybr 137 Giât dros ffordd I Neuadd Glasgoed, mae'r railing un ochor i giôt mochyn wedi malu

Llwybr heibio Rhwng Ddwryd Deiniolen , mae'r arwydd ar y llawr y ddwy ochor.

Llwybrau Rhiwlas

Rhiwlas - Deiniolen Cychwyn yn rhif 69 ac yna yn arwain i 71. Heibio Caemawr, Bronydd, Maes Meddygon ai Bwlch Cae Mawr .Uwchben Bwlch Cae Mawr, mae'r cloddiau wedi

disgyn i mewn i'r llwybr, ac mae cerddwyr yn gorfod cerdded ar dir y fferm. Mae angen codi'r clawdd yn ôl ar frys.

Mae yna arwydd ym Maes Meddygon, ond dim un arwydd uwchben Maes Meddygon ar grib y mynydd i ddangos lle mae'r llwybr.

Llwybr Carreg y Gath tuag at Rallt Pentir Rhif 74. Mae 3 llwybr yn uno tuag at yr allt. Nid oes arwydd o gwbl. Mae gwartheg a cheffylau yn rhwbio yno ac yn gwisgo'r arwydd dros amser. Angen arwydd newydd.

Lôn Castell, Llwybr 61. Hollti llwybr 60 a 62, un i Garfan a llall i Dyddyn Badin. Mae'r llwybrau yn mynd dros dir Tros y Waun. Mi fu pont a chamfa yno ar un adeg, ond yn wir angen arolwg ar y llwybr yma i weld be sydd angen i wella. Mae'r llwybr ei hun mewn lle da ond wedi dirywio, ac rydym angen ai uwchraddio.

Llwybrau gyda diffygion wedi tynnu i sylw Cyngor Gwynedd yn disgwyl adroddiad yn ôl

Giât Mochyn, Carreg y Gath

Llwybr rhwng Tŷ Mawr a Hafod y Fraich, Deiniolen

Cae Goronwy

Llwybr 16 Rhiw Goch, Clwt Bont I Frynrefail

Tros y Waun I Dros y Waun Fach rhif 61, 61A, 63 a 64

Llwybr I Gegin Arthur

Llwybr Sinc - Tarmac yn waelod

Llwybr cefn yr Eglwys - Giât Mochyn, nid oes arwydd yno yn dweud llwybr cyhoeddus. Credu mai rhif 92 ydi'r llwybr.

Cwmni Till Hill - Byth wedi clirio'r coed sydd wedi eu torri ar lwybr tuag at Gegin Arthur na chwaith yn y cae ger Ynys Iago

Llwybr i'r chwith lon capel cefn y Waun am Rhwng y Ddwryd. Mae'r arwydd llwybr cyhoedda a'r polyn yn gorwedd ar lawr ac angen ei roi i fyny yn ôl.

Arwydd Llwybr Penrhos. - Angen tynnu sylw'r Cyngor Sir a gyrru lluniau o loriau yn mynd drwy'r lon lle mae yna beipen nwy yn y wal.

Deiniolen - Llwybr Gorlan, llwyth o sbwriel yn cael ei lechio yno yn rheolaidd. Mae Meirion Thomas wedi bod yn clirio'r llwybr yn rheolaidd, ers tua mis. Diolch o galon iddo am hyn.

Os gwelwch yn dda, ewch a' ch sbwriel adref, neu ei roi yn y bin. Dewch i ni wella cyflwr ein pentrefi trwy eu cadw'n lan a thaclus.

Ffens llwybr gorlan. Wedi dymchwel, ac mae hi yn beryg gan fod yna dibyn i'r chwith

Gwmpas y Bwrdd

Cytunwyd fod ochor y lonydd a gordyfiant y gwair yn sobor, a bod yn warthus nad yw wedi cael ei dorri erbyn hyn. Fodd bynnag, mae'r cyngor wedi dechrau torri'r gwair yn yr ardal bellach. Mae yn edrych fel petai ni ydi'r ardal olaf ar y rhestr pob blwyddyn.

Mynwent Macpela -Yr un gwyn, mae'r Cyngor Sir wedi torri i lawr ar y nifer toriadau maent yn ei wneud yn y fynwent. Yn anffodus, ni all Y cyngor Cymuned dalu am gost toriad yn y fynwent, gan nad yw'r fynwent wedi ei chofrestru yn ein gofal. Mae rhaid ac yn ddyletswydd ar Y cyngor Sir I wneud yn sicr fod y toriadau cywir, glan yn cael ei

gwneud yn y fynwent ar amser priodol.

Baw ci yn broblem waeth gan fod y gwair wedi tyfu. Neb yn gweld lle mae ci yn gwneud eu busnes, a dim ots gan berchnogion chwaith.

Cyfarfod Unllais - Nododd RHEH ei bod wedi mynychu cyfarfod diddorol iawn o Unllais. Mae'r clerch eisoes wedi gyrru ymlaen i gynghorwyr i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad am glercod.

Cadarnhau Taliadau:

545- £27.72

546 - £420.00

547 - £180.00

548 - £492.00